
Y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg

Dydd Mercher y 3ydd o Ebrill 2019.

Nod y ddarlith


- Cyflwyno adnodd defnyddiol i chi.
- Egwyddorion sillafu a dyblu ‘n’ ac ‘r’.
- Gwallau cyffredin.
- Ymarfer ar gyfer y TCA.
- Pwyslais ar lafar- gwaith grŵp.



Gair yn Gymorth

- Llyfr ar gyfer darpar athrawon cyfrwng Cymraeg.
- Matiau laith
- Ffurfiau ysgrifennu a syniadau am dasgau.
- Enghreifftiau o sylwadau i'w rhoi ar waith disgyblion.

Sillafu



Sawl ‘n’ sydd yn y gair ‘penderfynu’?

Oes to bach ar tŷ?

Beth yw’r gwahaniaeth rhwng ‘cofrestri’ a ‘cofrestru’?

Dyblu'r 'n' a 'r' ...

Rhai rheolau i'n helpu i wybod sawl 'n' neu 'r'!

Dywedwch "tôn".

Nawr, dywedwch "ton"

Beth yw'r gwahaniaeth?

Nawr, beth sy'n digwydd pan fyddwn ni'n ychwanegu sillaf ...

tôn > tonau
ton > tonnau

Os yw'r llafariad yn hir mewn gair unsill, dydyn ni ddim yn dyblu wrth ychwanegu sillaf,
e.e. môr > moroedd, tôn > tonau,
<u>OND</u> ton > tonnau achos llafariad byr sydd yn y gair unsill.

Dyblu ‘n’ a ‘r’ …

Os ydyn ni’n ychwanegu sillaf at air sy’n gorffen yn ‘-nt’, rydyn ni’n colli’r ‘t’ ac yn dyblu’r ‘n’,
e.e. cant > cannoedd
punt > punnoedd

llwyddiant > llwyddia**nn**us

diwylliant > diwyllia**nn**ol

peiriant > peiria**nn**au

Dyblu ‘n’ a ‘r’ …

Mae’r “n” yn dyblu os ydym yn ychwanegu sillaf at air sy’n gorffen gyda -en neu -yn:

llythyren – llythre**nn**au

llyfryn – llyfry**nn**au

dogfen – dogfe**nn**au

offeryn – offery**nn**au



*Mae **emyn**, **gwenyn** a **telyn** yn eithriadau.

Os ydyn ni’n ychwanegu mwy nag un sillaf, does dim angen dyblu’r ‘n’ –

ysgrifen > ysgrife**nn**u OND ysgrife**n**yddes

Dyblu ‘n’ a ‘r’ …

Nid yw “**n**” yn dyblu mewn geiriau sy’n gorffen gyda **–iwn, -ion** (benthyciadau o’r Saesneg) os ydym yn ychwanegu sillaf:

cwestiwn – cwestiy**n**au cwestiy**n**u

ffasiwn – ffasiy**n**au ffasiy**n**ol

fersiwn - fersiy**n**au

Dyblu ‘n’ a ‘r’ …

Mae ‘an’ (negyddol) o flaen gair sy’n dechrau â ‘t’, ’d’ neu ‘n’ fel arfer yn troi’n ‘ann’ **…**

an + t = annh an + tebyg = a**nnh**ebyg

an + d = ann an + dymunol = a**nn**ymunol

an + n = ann an + naturiol = a**nn**aturiol

OND os oes cytsain arall yn dilyn y ‘d’ neu’r ‘t’, yn y ffurf wreiddiol, yna does dim angen dyblu ‘n’,

e.e. trefn > anh refn.



Dyblu ‘n’ a ‘r’ …

Nid yw **“n”** yn dyblu o flaen y terfyniadau

-wyr, -ion, -iad

difla**nn**u – difla**n**iad

offery**nn**au – offery**n**wyr

gwy**nn**u – gwy**n**ion

gy**rr**u – gyrwyr



Ydy'r geiriau hyn yn gywir?

- anifyr
- anhrefn
- anniddorol
- ysgrifennyddes
- canu

Allwch chi ddweud pam?



Beth yw ffurf lluosog y geiriau yma?

Man	Môr	Pennawd
Dant	Gyrrwr	Cwestiwn



Dewiswch y ffurfiau cywir …

1. Mae'r diwydiant yn wynebu nifer o …… (doriadau/dorriadau)

2. Mae'n rhaid i chi ……'r penderfyniad (gwestiynnu/gwestiynu)

3. Mae'r sefyllfa yn …….. (anheg/annheg)

3. Wyt ti wedi dod o hyd i'r ……? (cyfrifiaduron/cyfrifiadurron)

‘i’ neu ‘u’??




1. ‘o’ yng nghanol berfenw = ‘i’ ar y diwedd, e.e. colli, pori
2. ‘a’ yng nghanol berfenw = ‘u’ ar y diwedd, e.e. canu, taranu
3. ‘y’ neu ‘w’ yng nghanol berfenw = ‘u’ ar y diwedd, e.e. cysgu, chwyrnu
4. ‘w’ yn agos at ddiwedd berfenw = ‘i’ yn ei dilyn, e.e. berwi, drewi

Gyda geiriau tebyg eu sain, mae berfenwau fel arfer yn gorffen gydag u, ac enwau lluosog yn gorffen gydag i, e.e. rhestru (*to list*), rhestri (lists)


Ymarferion …



Trowch at y pecyn ymarferion. Gyda phartner, cwblhewch yr ymarferion ‘i’ neu ‘u’.



Y to bach …



Mae to bach ar y llafariaid ‘a’, ‘e’, ‘o’, ‘w’, ‘y’ os ydyn nhw’n hir mewn gair unsill sy’n gorffen gyda ‘l’, ‘n’ neu ‘r’, e.e. sêr, pêl, sŵn

Mae to bach mewn geiriau â mwy nag un sillaf os yw’r pwyslais ar y sillaf olaf, e.e. ar wahân.

Mae to bach ar lafariad hir mewn gair unsill sy’n gorffen gyda’r cytseiniaid ‘p’, ‘t’, ‘c’, ‘m’, e.e. tîm, plât, grŵp.

Does dim angen to bach mewn geiriau unsill sy’n gorffen gyda llafariad, e.e. to, te. OND , mae tŷ yn eithriad.

COFIWCH: Mae to ar y tŷ, ond does dim to ar y to!

Canfod y camgymeriad…



Trowch at y pecyn ymarferion.

Cwblhewch ymarfer canfod y camgymeriadau.

Geiriau tebyg ...



mae / mai

â / ag

yw / i'w

i'w neu *yw* …

yw – *is* yn Saesneg.

Defnyddiwch 'yw' os ydych chi'n gallu defnyddio 'ydy' hefyd
e.e Hwn **<u>yw'r</u>** llun gorau

i'w = i + ei/eu

to his, to her neu *to their* yn Saesneg.

i + ei fam = i'w fam



COFIWCH - Bydd yr un rheolau treiglo yn cael eu defnyddio gydag i'w …

i + ei chanlyniadau hi = i'w chanlyniadau hi

i + eu hysgol nhw = i'w hysgol nhw

mae neu *mai* …

mae – *it is / he is / she is* yn Saesneg

Fel arfer ar ddechrau brawddeg neu ran newydd o'r frawddeg …

Mae hi'n oer.
Mae e'n fachgen da.

mai – *that* yn Saesneg.

Byth ar ddechrau brawddeg.
Defnyddiwch 'mai' os gallwch chi hefyd ddefnyddio 'taw'...

Rwy'n gwybod mai ti sy'n iawn.

â/ag

- â/ag = with/by means of (gyda)
- Â = Treiglad Llaes TCP
- Mynd â chyllell i'r gegin



- Ag – dim treiglad
- Mynd ag afal yn fy llaw
- Dod ag offer i'r wers



a/ac = and

- A = cyn cytsain (yn achosi treiglad llaes)
- Ci a chath
- Mab a thad

- Ac – cyn llafariad
- Afal ac oren
- Prifysgol ac ysgol

A = rhagenw perthynol

- A = that/which/who
- Treiglad meddal!

- Dyma'r ferch a welais ddoe
- Dyma'r disgybl a oedd yn ddrwg
- Doedd dim o'r hyn a ddywedodd yn wir
- Hepgor yr 'a' – cadw'r treiglad!

Na / nac = negyddol

- Na+ cytsain (treiglad llaes)
- Doedd dim merch na bachgen yn bresennol
- Nac + llafariad
- Welais i ddim afal nac oren (neither/nor)

- Gorchymyn: Na phoener!!

Na/nag = than

- Na + cystain (treiglad llaes)
- Nag + llafariad

- Mae gwaed yn dwymach na dŵr.
- Mae gwynt yn oerach na thân.
- Mae afal yn fwy blasus nag oren.

Nid / Nad

NAD = *That* + negyddol
NID = negyddol yn unig

NAD wyf = ***that I'm not*** **Nid wyf = I am not**

ee. Dywedodd hi wrtho ti **nad wyf** yn credu hynny
Nid wyf yn dymuno sefyll yr arholiad.

NAD WYT TI'N = **that** you are **not**/ that you aren't
ee. Dywedodd Sara **nad wyt ti'n** mynd.

cael / gan / gyda ...

cael – y broses o dderbyn rhywbeth (*to have*)

e.e Maen nhw'n cael gwaith cartref bob nos

gan neu **gyda** – mae'r eitem gennych chi'n barod (*got*)

e.e Mae arian poced ganddi hi
Roedd car du ganddyn nhw



Rhaid defnyddio'r ffurf gywir ar 'gan' ...

gen i
gennyt ti
ganddi hi/ ganddo fe
gennym ni
gennych chi
ganddyn nhw



Pa rai sy'n anghywir? …

1. Mae dau frawd a dwy chwaer ganddi hi.
2. Roedd hi'n cael ci a chath ond bu farw'r ci.
3. Edrychwch! Rwy'n cael llosgydd Bunsen yma.
4. Bydda i'n cael teledu ar fy mhen-blwydd.
5. Wyt ti gyda dillad newydd i fynd i'r parti?
6. Roedd gormod o amser ganddi i feddwl am ei phroblemau.
7. Dwi'n cael gormod o waith cartref i fynd allan heno.

Berfau cryno

Er mwyn codi safon a naws ein gwaith ysgrifennu, mae'n llawer gwell defynddio berfau cryno yn hytrach na berfau cwmpasog.

Er enghraifft:

Gwnaeth Huw Edwards a'i deulu symud o gefn gwlad Ceredigion i Gymoedd Bro Morgannwg oherwydd gwnaeth tad Huw gael swydd yn yr ardal.

Berfau cryno

Er mwyn codi safon a naws ein gwaith ysgrifennu, mae'n llawer gwell defynddio berfau cryno yn hytrach na berfau cwmpasog.

Er enghraifft:

Gwnaeth Huw Edwards a'i deulu symud o gefn gwlad Ceredigion i Gymoedd Bro Morgannwg oherwydd gwnaeth tad Huw gael swydd yn yr ardal.

Berfau cryno

Mae'n llawer gwell defnyddio berfau cryno!

Gwnaeth Huw Edwards a'i deulu symud o gefn gwlad Ceredigion i Gymoedd Bro Morgannwg oherwydd gwnaeth tad Huw gael swydd yn yr ardal.

***Symudodd** Huw Edwards a'i deulu o gefn gwlad Ceredigion i Gymoedd Bro Morgannwg oherwydd **cafodd** tad Huw swydd yn yr ardal.*


Gwneud

Dyma sut i redeg y ferf ‘gwneud’ yn gywir yn y gorffennol.

Cwestiwn	Cadarnhaol	Negyddol
Wnes i?	Gwnes i	Wnes i ddim / Ni wnes i
Wnes di?	Gwnest ti	Wnest ti ddim / Ni wnest ti
Wnaeth e?	Gwnaeth e	Wnaeth e ddim / Ni wnaeth e
Wnaeth hi?	Gwnaeth hi	Wnaeth hi ddim / Ni wnaeth hi
Wnaethon ni?	Gwnaethon ni	Wnaethon ni ddim / Ni wnaethon ni
Wnaethoch chi?	Gwnaethoch chi	Wnaethoch chi ddim / Ni wnaethoch chi
Wnaethon nhw?	Gwnaethon nhw	Wnaethon nhw ddim / Ni wnaethon nhw

Tasg i ymarfer berfau cryno

Ail ysgrifennwch y paragraff gan ddefnyddio berfau cryno yn hytrach na berfau cwmpasog.



Tasg i ymarfer berfau cryno

Gwnaeth y disgyblion ysgrifennu dyddiadur yn y wers. Gwnaeth llawer deimlo fod y dasg yn anodd ac oherwydd hynny gwnaeth llawer ddim gorffen. Roedd y bechgyn yn siaradus iawn yn ystod y wers a gwnaethon nhw ddim gorffen y dasg. Ar y llaw arall, roedd y merched yn gydwybodol iawn a gwnaethon nhw weithio'n dda iawn yn y wers. Gwnes i osod gwaith cartref ar gyfer yr wythnos nesaf. Mae'r gwaith cartref yn seiliedig ar y gwaith a wnaeth y disgyblion yn ystod y tymor.

Y TCA

1. Tasg Gywiro.

2. Trawsieithu. Rhaid cadw at nifer y geiriau. Osgoi pwyntiau bwled.

3. Tasg ysgrifennu. Rhaid cadw at nifer y geiriau.

Dydd Llun y 29ain o Ebrill 2019.

- 9.30yb : Adolygu yn 002 y Fforwm
- 11.30yb: Amser adolygu personol ac amser i gael cinio.
- 1:00yh : Arholiad y TCA yn un o'r ystafelloedd cyfrifiaduron.

Yn ystod y wers hwn byddaf yn gofyn un disgybl o bob grŵp mynd i chwilio am wybodaeth. Wedyn, rwyf eisiau i'r disgyblion trafod y wybodaeth cawson nhw â gweddill y grŵp. Y dasg fydd i paratoi taflen wybodaeth i gyflwyno'r ffeithiau mewn ffordd ddiddorol.

Cyn i'r disgyblion mynd ati i gwneud y daflen, byddaf yn mynd i bob grŵp, gan holi'r cwestiynau hyn:

- Ble rydych chi wedi cael y ffeithiau yma o?
- Pa ffeithiau rydych chi'n mynd yw cynnwys yn y daflen wybodaeth?
- Pam ydy hi'n bwysig cynnwys y ffeithiau hyn?
- Ydy rhywun yn y grŵp yn mynd i chwilio am ddelweddau i'r daflen?
- Oes gan pawb yn y grŵp tasg unigol?

Mae'r pwynt olaf uchod yn un bwysig oherwydd rhaid gwneud yn siŵr mae'r disgyblion yn deall pa tasg y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud. Dylai pob unigolyn gwybod yn union beth yw hud a lled ei gyfraniad er mwyn sicrhau bod nodai'r wers yn cael eu cyflawni.

Yn ystod y wers **hon** byddaf yn gofyn **i** un disgybl o bob grŵp **f**ynd i chwilio am wybodaeth. Wedyn, rwyf eisiau i'r disgyblion **dr**afod y wybodaeth (**a) g**awson nhw â gweddill y grŵp. Y dasg fydd ~~**i**~~-paratoi *(DS: Cysill yn awgrymu: i baratoi)* taflen wybodaeth i gyflwyno'r ffeithiau mewn ffordd ddiddorol.

Cyn i'r disgyblion **f**ynd ati i **g**wneud y daflen, byddaf yn mynd **at** bob grŵp, gan holi'r cwestiynau hyn:

- **O b**le rydych chi wedi cael y ffeithiau yma (~~o~~)?
- Pa ffeithiau rydych chi'n mynd **i'w** cynnwys yn y daflen wybodaeth?
- Pam **mae** hi'n bwysig cynnwys y ffeithiau hyn?
- **Oes** rhywun yn y grŵp yn mynd i chwilio am ddelweddau i'r daflen?
- Oes gan **b**awb yn y grŵp **d**asg unigol?

Mae'r pwynt olaf uchod yn un **p**wysig oherwydd rhaid gwneud yn siŵr **bod y** *(un gwall)* disgyblion yn deall pa **d**asg y mae'n rhaid iddyn nhw ei **g**wneud. Dylai pob unigolyn **g**wybod yn union beth yw **hyd** a lled ei gyfraniad er mwyn sicrhau bod nod**au'**r wers yn cael eu cyflawni.

Prif bwyntiau:

- Gall tasgau gwaith cartref baratoi at wers neu ymarfer sgiliau a addysgwyd mewn gwers, neu gallant fod yn dasgau estynedig neu adolygu.
- Dengys astudiaethau fod ysgolion a dosbarthiadau sy'n gosod gwaith cartref yn perfformio'n well na'r rhai lle na chaiff ei wneud, er nad oes tystiolaeth hollol bendant mai gwaith cartref yw'r rheswm am hyn.
- Mae gwaith cartref fwyaf effeithiol pan fydd yn dasg fer, bwrpasol sy'n rhan greiddiol o'r dysgu, nid yn atodiad.
- Dylai'r adborth fod yn benodol (ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n gywir yn y gwaith).
- Rhwng 1 a 2 awr y diwrnod ysgol yw'r cyfnod delfrydol i ddisgyblion ei dreulio'n gwneud gwaith cartref.

Is-bwyntiau perthnasol:

- Gellir defnyddio tasgau gwaith cartref i orffen gwaith a ddechreuwyd yn y dosbarth.
- Mae astudiaethau wedi canolbwyntio ar y gydberthynas rhwng gwaith cartref a sut mae ysgolion yn perfformio.
- Gall gwaith cartref buddiol gael effaith gadarnhaol ar gynnydd, o hyd at wyth mis.
- Mae tasgau gwaith cartref sy'n cael eu gosod yn gyson yn llai buddiol (hyd at ddau i dri mis o gynnydd).
- Po fwyaf o amser y mae disgyblion yn ei dreulio'n gwneud gwaith cartref, lleiaf o effaith a gaiff.

TASG 1: CYWIRO Taflen Ateb

Annwyl **rieni**,

Presenoldeb yn ystod cyfnod arholiadau TGAU Blwyddyn 10 a 11

Gan ein bod wedi cael **nifer o** ymholiadau ynglŷn â phresenoldeb, teimlaf **ei bod yn/hi'n** bwysig i rieni **gael** gwybod yn union beth **yw** disgwyliadau'r ysgol.

Blwyddyn 10

Dylai disgyblion Blwyddyn 10 **fod** yn bresennol fel arfer. Os bydd disgyblion yn **sefyll** arholiad yn y prynhawn, mae'n hanfodol **eu** bod yn **mynychu'r** gwersi yn y bore. Mae'r athrawon yn **dal i** addysgu felly os bydd disgybl yn colli'r ysgol, bydd yn colli gwaith **gwerthfawr**.

Blwyddyn 11

Gall disgyblion Blwyddyn 11 **dreulio** cyfnod yr arholiadau **gartref**, gan **ddod** i mewn i'r ysgol **pan** fydd arholiad. **Ni** fydd athrawon yn addysgu yn ystod y cyfnod hwn, ond mae croeso i ddisgyblion ddod i siarad yn anffurfiol **â'u** hathrawon.

Gwisg ysgol ac offer

Disgwylir i bob disgybl barchu'r polisi gwisg ysgol fel arfer. Os bydd disgybl yn **cyrraedd** heb wisg ysgol, byddwn yn eich ffonio cyn gynted ag **sy'n** bosib. Hefyd, rydym wedi dweud wrth y disgyblion **am** sicrhau eu bod yn dod â'r offer cywir i bob arholiad.

Yn gywir,

Sara Llywelyn Bowen (Pennaeth)